Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
*Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 Rheoliad 16*
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 25)

# Hysbysiad o'r ffaith bod Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei Fabwysiadu

## Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 - 2022

Ar **25 Ebrill 2013**, mabwysiadodd **Cyngor Sir Ceredigion** Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer **Sir Ceredigion**. Y CDLl mabwysiedig fydd y cynllun datblygu ar gyfer **Sir Ceredigion** a bydd yn sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir yn yr ardal hon.

Mae copïau o'r CDLl mabwysiedig, Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan ymgorffori'r adroddiad amgylcheddol), Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (2010 & 2011), Datganiad Mabwysiadu yn nodi sut yr Ystyriwyd yr Adroddiad Amgylcheddol ac ati, a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer Adroddiad Sgrinio Terfynol CDLl Ceredigion ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn Swyddfa'r Cyngor Penmorfa, Aberaeron, Llun - Iau, 9am - 4.30pm a Gwener 9am - 4.00pm ac yn Llyfrgelloedd y Sir a'r Llyfrgelloedd Teithiol, yn ystod yr amserau agor a nodir yn: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=1310 (neu ffoniwch 01545 572123 i gael gwybod yr amserau agor).

Maent hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn http://www.ceredigion.gov.uk/ldp

Bydd copïau o'r CDLl, yn cynnwys ei fap cynigion, ar gael i'w prynu **o Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron Ceredigion SA46 0PA** cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Daeth y CDLl yn weithredol ar ôl ei fabwysiadu (h.y. **25 Ebrill 2013**).

Gall person y mae'r CDLl yn peri gofid iddo sy'n dymuno cwestiynu ei ddilysrwydd ar sail y ffaith nad yw o fewn y pwerau a gyflwynwyd gan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno neu unrhyw reoliad a wnaed oddi tani o ran y broses o fabwysiadu'r CDLl, o fewn chwe wythnos i **2 Mai 2013** wneud cais i'r Uchel Lys o dan Adran 113 o Ddeddf 2004.

*Mae rhagor o wybodaeth ar gael o ☎ 01545 572123, ✉ ldp@ceredigion.gov.uk neu* 💻 http://www.ceredigion.gov.uk/ldp

.